



Gweithwyr gofal preswyl i blant ar y Gofrestr - 1 Ebrill 2021



Beth yw'r pwyntiau allweddol?

- Mae gweithwyr gofal preswyl i blant wedi cofrestru gyda ni ers 2008
- Mae 3,165 o weithwyr wedi cofrestru, sef cynnydd o gymharu â 2,975 y llynedd
- 38 yw oed cyfartalog gweithwyr.

Gall gweithwyr gofal preswyl i blant sydd heb gymhwyso eto gofrestru naill ai ar ôl cwblhau Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan neu Ddyfarniad Egwyddorion a Gwerthoedd Gofal Cymdeithasol Cymru.



Faint ymunodd â'r Gofrestr a'i gadael?

- Ymunodd 802 o weithwyr â'r Gofrestr a gadawodd 612 yn y flwyddyn ddiwethaf
- O'r rhai a adawodd y Gofrestr, tynnwyd 70% ohonynt ohoni gan nad oeddent wedi cynnal eu cofrestriad
- Gofynnodd 12% o'r ymadawyr am adael y Gofrestr gan nad oeddent yn gweithio mewn gofal preswyl i blant yng Nghymru mwyach
- Roedd 49 o weithwyr wedi newid rôl i reolwr gofal preswyl i blant.



Ble mae gweithwyr yn gweithio?

- Mae 72% yn gweithio yn y sector preifat
- Mae 20% yn gweithio mewn gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol
- Mae 5% yn gweithio yn y trydydd sector
- Mae 21% o weithwyr wedi bod yn eu rôl bresennol ers dros 5 mlynedd
- Dechreuodd 60% o weithwyr yn eu rôl bresennol o fewn y tair blynedd diwethaf.



Beth yw'r tueddiadau pum mlynedd?

- Mae nifer y gweithwyr gofal preswyl i blant ar y Gofrestr wedi tyfu 39% yn y pum mlynedd diwethaf
- Mae canran y gweithwyr ar y Gofrestr sy'n gymwysedig wedi gostwng o 57% yn 2016 i 46% eleni
- Mae'r ganran sy'n gweithio yn y sector preifat, gan gynnwys asiantaethau recriwtio, wedi cynyddu o 67.5% yn 2016 i 72% eleni.



Pa gymwysterau sydd gan weithwyr?

- Mae gan 29% o weithwyr gymhwyster presennol y FfCC
- Mae gan 17% gymhwyster cyfatebol derbyniol
- Nid yw 54% o weithwyr wedi cymhwyso eto ac maent wedi cofrestru gan ddefnyddio'r Fframwaith Sefydlu neu'r Dyfarniad Egwyddorion a Gwerthoedd.



Beth yw proffil y gweithwyr?

- Mae 1,957 o weithwyr yn fenywaidd a 1,208 yn wrywaidd
- 38 yw oed cyfartalog gweithwyr
- Mae 95% o weithwyr yn wyn, gwyn Prydeinig, gwyn Cymreig neu wyn Gwyddelig
- Mae 41% o weithwyr yn siarad rhywfaint o Gymraeg neu'n rhugl
- Mae 2% o weithwyr yn ystyried eu bod yn anabl.